

Byddaf yn teimlo mai peth anffodus oedd i Thomas Price ddewis cael ei adnabod wrth y ffugenw Carnhuanawc. Mae'r terfyniad '...awc' yn taro'n chwithig i'm clust ac yn ei gysylltu â dilynwy'r William Owen Pughe. Ffugenw ydoedd a roes ar waelod ei ysgrifau yn *Seren Gomer*. Dyna oedd yr arfer yn y cyfnod hwnnw; anaml y gwelwch enw priod ar waelod ysgrifau'r cyfnodolion.

Bu ganddo nifer o ffugenwau; yr un digrifaf yw Gorrddorbrongorfod a roes ar ei draethawd arobryn yn eisteddfod Y Trallwm, 1824. Mae'n peri i mi amau mai cael hwyl wrth wrando ar y beirniad yn ceisio ei ynganu yr oedd. Nid enw barddol oedd Carnhuanawc; pwysleisiai droeon nad oedd yn fardd, er hynny gallai werthfawrogi barddoniaeth a gwyddai'r gwahaniaeth rhwng englyn da a'r cannoedd a anfonid i gystadlaethau eisteddfodol.

Darllenodd tua dau gant o rai felly yn 1826 cyn eisteddfod Aberhonddu, a'i ddyfarniad oedd 'precious nonsense'. Mewn man arall dywedodd:

'...I have a great dread of Englyn-makers; if they chance to compose one tolerable line the following is generally nonsense.'

Ond mi fu Carnhuanawc yn ffodus yn ei gofiannydd. Merch ddiwylliedig oedd Jane Williams, Ysgafell (1806-1885) a ddaeth i'w adnabod trwy Gwenynen Gwent, Arglwyddes Llanofar. Mae ysgrif Maxwells Frazer arni yn y cylchgrawn *Brycheiniog, Vol VII* 1961 yn olrhain ei hanes yn llawn. Heblaw *The Literary Remains of Thomas Price, Carnhuanawc* (1854-55) ysgrifennodd gofiant i Elizabeth Davies, Betsi Cadwaladr, y nyrs a fu yn rhyfel y Crimea.

Mae'r ffaith fod Carnhuanawc yn uchel ei barch yng Nghymru heddiw yn dangos mai gŵr o flaen ei oes ydoedd; gwelai'r perygl i'r iaith Gymraeg yn y modd yr alltundwyd yr iaith yn llwyr o'r gyfundrefn addysg, a'r anwybyddu ar hanes Cymru. Yn 1990 sefydlwyd Cymdeithas Carnhuanawc. Pwy fyth a ddychmygai sefydlu Cymdeithas Ab Ithel neu Gymdeithas Wallter Mechain, heddiw?

Ar yr un pryd nac anghofiwn mai gŵr ei gyfnod ydoedd, fel y dengys ffurf ei ffugenw.

Perygl arall yw i ni synio amdano fel gŵr difrifol a'i lach ar bawb a phopeth. Ond edrychwch ar y llun ohono sydd yng nghyfrif Bedwyr Lewis Jones, *Yr Hen Bersoniaid Llengar* (1963). Dyn ifanc yn edrych allan ar y byd gyda rhyw awgrym o wên yn ei ddau lygad treiddgar sydd yn y llun hwn.

Carnhuanawc - y dyn gan Mari Ellis

Gŵr main, tal ydoedd yn symud yn sionc a bywiog. Pan ddaeth i eisteddfod Caerfyrddin yn 1823, dywed un sylwebydd fod yr Arglwydd Dinefwr a arweinai yn edrych braidd yn amheus arno, curad ifanc mewn brethyn cartref heb fawr o urddas yn perthyn iddo. Un o'r perthau a ddywedodd Jane Williams, Ysgafell amdano oedd fod yn gas ganddo ddillad newydd. Pan fyddai'n fater o raid, arferai daenu'r brethyn allan yn yr awyr agored er mwyn iddo golli ei sglein cyn ei roddi i'r teiliwr. Cafodd ei feirniadu am ymddangos ar lwyfan eisteddfod Dinbych, 1825 yn ei frethyn cartref di-raen, a'r Dug Sussex, brawd y brenin, yn eistedd yn ei ymyl!

Collfarnwyd W. S. Rees, Casgob, yntau am resymau tebyg. Ond pan gofiwn mai ar eu ceffylau y teithiai'r ddau hen lanc hyn i Ddinbych, digon prin fod lle yn sgrepan y cyfrwy i ail bâr o ddillad. Fel y dywedodd Carnhuanawc yn ei lythyr at W.S. Rees:

'...coats you know will become worse for wear, and so will purses too, at least their contents will.'

Daeth syniadau **goleuedig** Carnhuanawc i lawr i ni yn yr hyn a ysgrifennodd, a hawdd yw anghofio mai trwy areithio'n huawdl a dweud rhai pethau pur garlamus y daeth yn boblogaidd. Pan ofynnid iddo am gopi o'i areithiau i'w cynnwys yn yr ardrosdiadau, gwelodd na allai drosglwyddo ei huodledd i'r tudalen!

'...with regard to what I said a second time, on the third day,'

ysgrifennodd, ar ôl eisteddfod Caerfyrddin 1823,

'I think a great part may be omitted as it would not appear at all in print as connected with the proceedings of the Eisteddfod.'

Ac eto yn 1824

'I did once purpose... to commit to paper something of what I said at Welshpool. But really I cannot manage to get up anything that I can fancy would look even tolerable in print.'

Diddorol yw sylw Theophilus Jones, hanesydd sir Frycheiniog amdano yn y flwyddyn y cafodd ei ordeinio; ysgrifennai at Dr Donne, Llanyblodwel ar 23 Tachwedd, 1811:

'I feel myself highly obliged to you for yr anxiety for my ingenious young friend Price, but like every other Genius, or at least like most of them he is very eccentric.'



Carnhuanawc - Thomas Price (1787 - 1848)

Yn ei lythyrau personol cawn ef yn mynegi yr hyn a deimlai, heb ofni beirniadaeth. Mae'r ohebiaeth rhyngddo a Taliesin Williams, mab Iolo Morganwg yn frith o sylwadau plaen. Dau ddyn o'r un oed oeddent.

'Credwch fi, y mae gan ein iaith ddigon o anawsterau i ymdrechu yn eu herbyn y dydd heddyw heb i'r Beirdd ychwanegu atynt trwy ymriadau yn eu plith eu hunain.'

Wrth baratoi ar gyfer eisteddfod Aberhonddu, 1826, dangosodd ei ragfarnau heb flewyn ar dafod.

'I fear the stupid Northwalian mode of singing will be adopted at the Eisteddfod for the prize, though I think Jenkins might be allowed to sing in order to show the Gwentian method. I certainly see very little to admire in their manner of singing in North Wales... I think it is very tiresome.'

Pan geisiai Taliesin werthu llawysgrifau ei dad yn 1830, er mwyn cael dipyn o arian, cynghorodd Carnhuanawc ef i dderbyn hanner canpunt.

'Should any person offer you fifty pounds for the whole, I think you would not be consulting your own interest in refusing that sum... None of the MSS are of any antiquity, there not being a single

copy upon vellum... those of any interest have already appeared in print.'

Am yr wyddor ryfedd Coelbren y Beirdd, nid oedd am fentro barn:

'...you mention your authorities for Coelbren y Beirdd, I should certainly like to see them... for as to your being able to produce proof I am still rather sceptical... I would recommend you to withhold any publication respecting them until you have considered the subject.'

Mae yna awgrym cryf fod Carnhuanawc yn amheus o lawer o gynnyrch Iolo Morganwg. Daw hyn i'r golwg pan fu'r personiaid llengar yn ceisio cael ail-gyhoeddi *The Myvyrian Archaeology of Wales*, a gyhoeddwyd yn ddwy gyfrol yu 1801, gyda thrydedd gyfrol yn 1807. Ni theimlai Carnhuanawc fod angen ail-gyhoeddi'r drydedd gyfrol am fod ynddi lawer o sothach. *Sad trash* yw ei ymadrodd, a Iolo Morganwg oedd yu gyfrifol am lawer o'r cynnwys.

Ymhlith llawysgrifau Carnhuanawc yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru mae yna gyfrol swmpus wedi'i rhwymo mewn lliain gwyrdd gyda'r pennawd *The Welsh Harp. T. Price 1840*. Wrth drafod Dafydd Morris, gwneuthurwr telynu yn Llanrwst, mae'n dyfynnu'r ddau bennill:

Y delyn wen sy'n llawn o dannau
A wnaed yng nghoed y Glyn yn rhywle.

Mae hi yn hylaw ac yn hwylus
O waith dwylaw Dafydd Morris.

Da a difyr ydyw'r delyn
Gwyn ei fyd na chawn ei chanlynn.
Nid oes dim yn debyg iddi
Ond menyw'n goflaid yn y gwely.

Er i Jane Williams gynnwys y rhan fwyaf o'r hyn sydd yn y llawysgrif yn *The Literary Remains...* gadawodd y penillion allan. Merch ei chyfnod oedd hithau.

Ta beth am ragfarn Carnhuanawc am ganu penillion, mae ei edmygedd o fynydd-dir gogledd Cymru yn werth ei ddyfynnu - a hyn gan un a gerddodd lawer yn Iwerddon a'r Alban ac ar y cyfandir. Mae'n ateb llythyr a dderbyniodd gan W. S. Rees, Casgob, ar ôl Eisteddfod Dinbych 1828.

'...you say you have visited Llanberis. I eney you your excursion. You have seen the finest pass and the most Alpine scenery in the British Islands. I have seen the fine passes of the Highlands of Scotland, Glenco, Glencroe, Killycranky and I can assure you they are not to be compared to the pass of Llanberis, and I have seen them all within the same three weeks, and Llanberis the last of all... If you crossed over from Gorphwysfa to Llyn Gwynant and Beddgelert you saw it in perfection. Snowdonia is a splendid region.'